

Dadansoddi ar gyfer Polisi



Analysis for Policy



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

RHIF YMCHWIL GYMDEITHASOL:

53/2018

DYDDIAD CYHOEDDI:

20 MEDI 2018

Baromedr Busnes Twristiaeth Cymru

Cam 3, Haf 2018

Baromedr Busnes Twristiaeth Cymru: Cam 3, Haf 2018

Anthony Lydall ac Amy Childs, Strategic Research and Insight



Safbwyntiau'r ymchwilydd sy'n cael eu mynegi yn yr adroddiad hwn, ac nid o reidrwydd safbwyntiau Llywodraeth Cymru

Am wybodaeth bellach, cysylltwch â:

Dr Robert Lewis, Pennaeth Ymchwil Twristiaeth, robert.lewis@llyw.cymru

Adran: Adran Gwyddoniaeth, yr Economi a Thrafnidiaeth

Canolfan QED

Ystad Trefforest

Pontypridd

Rhondda Cynon Taf

CF37 5YR

Ffôn: 0300 061 6026

20 Medi 2018

© Hawlfraint y Goron 2018

OGL

Mae'r cynnwys i gyd ar gael o dan [Fersiwn 3.0](#) Trwydded Agored y Llywodraeth, ac eithrio lle nodir fel arall.

Cynnwys

1. PRIF GANFYDDIADAU.....	3
2. CANFYDDIADAU ANSODDOL.....	5
3. CEFNDIR A METHODOLEG.....	7
4. PERFFORMIAD YR HAF.....	9
5. RHESYMAU DROS GYNNYDD MEWN YMWELWYR.....	12
6. RHESYMAU DROS LAI O YMWELWYR.....	13
7. PERFFORMIAD YN ÔL Y FARCHNAD.....	14
8. PROFFIDIOLDEB.....	16
9. EFFAITH BREXIT.....	18
10. DISGWYLIADAU A HYDER AR GYFER YR HYDREF.....	22

1. PRIF GANFYDDIADAU

Tywydd braf yn arwain at ddiwydiant twristiaeth llewyrchus

Mae oddeutu dau o bob pump (40%) o fusnesau wedi cael mwy o ymwelwyr yn ystod yr haf, ac mae cyfran debyg (44%) wedi cael yr un lefel.

Y rheswm mwyaf cyffredin am y gwelliant mewn perfformiad o bell ffordd yw'r tywydd gwell - a nodwyd gan 57% o'r busnesau wnaeth brofi mwy o ymwelwyr.

Mae pob rhanbarth yng Nghymru yn perfformio'n dda

Ym mhob un o'r pedwar rhanbarth yng Nghymru, mae lefelau ymwelwyr wedi codi ar y cyd ac mae hyn yn adlewyrchu'r canlyniad cyffredinol (nid yw'r gwahaniaethau rhwng y rhanbarthau yn sylweddol).

Hostelau a meysydd carafanau yn arbennig o brysur

Y sectorau wnaeth berfformio orau oedd hostelau (mae 52% o fusnesau wedi gweld cynnydd) a meysydd carafanau a gwerysilla (49% wedi gweld cynnydd). Mae meysydd carafanau a gwerysilla wedi elwa ar y tywydd yn fwy nag unrhyw sector arall, gyda 88% o'r rheini sydd wedi gweld cynnydd mewn ymwelwyr yn nodi'r tywydd gwell fel rheswm allweddol.

Marchnad y DU yn perfformio'n dda

Mae marchnad y DU (y tu allan i Gymru) yn perfformio'n dda eleni. Noda 37% o fusnesau eu bod wedi cael mwy o ymwelwyr o'r DU hyd yma eleni, o'u cymharu â dim ond 7% sydd wedi cael llai. Awgryma'r sylwadau y gallai'r ffaith fod pobl wedi treulio'u gwyliau yn y DU oherwydd y tywydd braf a chyfraddau cyfnewid wedi cyfrannu at y cynnydd hwn.

Maint y

Marchnadoedd Ewrop hefyd yn perfformio'n dda

Mae 37% o fusnesau wedi cael mwy o ymwelwyr o'r Almaen hyd yma eleni, ac mae oddeutu hanner ohonynt (51%) wedi cael yr un faint. Yn yr un modd, mae 42% o fusnesau wedi cael mwy o ymwelwyr o wledydd eraill yn Ewrop eleni, a 46% ohonynt wedi cael yr un faint. Awgryma rhai gweithredwyr y gallai'r cyfraddau cyfnewid fod wedi dylanwadu ar y cynnydd o ymwelwyr Ewropeaidd yng Nghymru.

Brexit – parhau i aros i weld

Nid yw Brexit wedi dylanwadu'n sylweddol ar y diwydiant eto, oherwydd dywed tri o bob pedwar busnes (75%) nad ydynt wedi gweld unrhyw

effaith o gwbl hyd yma. Mae rhai yn tybio y bydd gadael yr UE yn arwain at fwy o dwristiaeth gartref, ond ceir barnau cymysg ynghylch yr effaith ar dwristiaeth dramor.

Hyder mawr ar gyfer yr hydref Yn dilyn tymor brig da iawn, mae'r rhan fwyaf (79%) o fusnesau nawr yn hyderus ar gyfer tymor yr hydref.

2. CANFYDDIADAU ANSODDOL

2.1 Rydym wedi cynnal cyfweiliadau manwl dros y ffôn â ffigurau twristiaeth allweddol o sefydliadau a chyrrff amrywiol ledled Cymru. Trafodir y prif ganfyddiadau isod.

Diwrnodau braf, heulog

2.2 Eleni, mae gweithredwyr wedi elwa ar un o'r hafau poethaf mewn hanes yn y DU, gyda'r tywydd poeth a welwyd ledled y wlad ym mis Mehefin a mis Gorffennaf. Dywed arweinwyr y diwydiant fod yr heulwen wedi bod yn ffactor pwysig yn eu perfformiad, sy'n well na'r haf diwethaf.

"Mae Mehefin a Gorffennaf wedi bod yn eithaf da. Roedd ein cyllideb a'n ffigurau yn well na rhai y llynedd."

"Mae'r tywydd yn gwneud gwahaniaeth mawr."

"Mae tywydd da yn denu mwy o bobl allan, felly mae cyfle i fwy o bobl gymryd rhan mewn gweithgareddau ac ymhél â darparwyr gweithgareddau."

Adferiad araf ers y gaeaf

2.3 Cafodd y diwydiant ei daro'n galed gan y tywydd gwael tuag at ddechrau'r flwyddyn, ac ymddengys fod y broses adfer wedi bod yn araf, hyd yn oed gyda haf addawol. Nid yw rhai darparwyr yn sicr o hyd a ydynt wedi adennill eu colledion hyd yma.

"Y Pasg yw'r cyfnod prysuraf o'r flwyddyn i ni, a chan fod y tywydd wedi bod yn eithaf gwael, rydym ar ein colled. Rydym wedi bod yn ceisio adennill ein costau dros weddill y flwyddyn."

"Mae'r gaeaf bob amser fel y bedd yma, felly rydym siŵr o fod ar yr un lefel."

"Mae'r haf wedi rhoi hwb i ni'n bendant. Pa un a yw hynny wedi adennill yr hyn a gollwyd gennym ar ddechrau'r flwyddyn, d'wn i ddim."

2.4 Fodd bynnag, roedd rhai gweithredwyr yn gallu addasu i'r hinsawdd aeafol, ac mae hyn yn helpu'r perfformiad cyffredinol y flwyddyn hon.

"Gydag eira dan draed, gellir cymryd rhan mewn gwahanol weithgareddau ... efallai ein bod wedi colli ychydig o arian, ond dim ond dros gyfnod byr o amser."

"Fel arfer, rwy'n cyflogi gweithwyr beth bynnag yn ystod y gaeaf ... ond rwy'n credu y byddaf wedi adennill fy nghostau."

Bydd Brexit yn hybu gwyliau gartref...

2.5 Er nad yw arweinwyr y diwydiant wedi gweld unrhyw effaith eto, mae ganddynt rai syniadau ynghylch sut gallai Brexit fod yn fuddiol i'w busnes. Maen nhw'n darogan y bydd gwerth isel y

bunt yn annog pobl sy'n mynd ar wyliau ym Mhrydain i ddewis gwyliau gartref, oherwydd byddant yn llai awyddus i deithio tramor.

"Rwy'n credu y byddwn yn gweld llawer mwy o bobl yn treulio'u gwyliau gartref oherwydd y bunt wan."

"Gyda Brexit, gallai fod yn flwyddyn dda iawn i dwristiaeth gartref."

... ond am ba bris?

2.6 Mae fwyfwy o weithredwyr yn poeni y bydd yn rhaid iddynt godi eu prisiau o bosibl yn sgil trethi a chostau uwch. Ac mae rhai yn cwestiynu a fydd pobl yn gwario eu harian neu beidio.

"Os oes gan bobl arian yn eu pocedi, byddan nhw'n ei wario. Os na fydd ganddynt arian, fyddan nhw ddim yn ei wario."

"Caiff llawer o fy nghynhyrchion eu mewnfario o dramor, ac mae'r gost wedi cynyddu, felly mae'r pris gwerthu'n cynyddu."

2.7 Mae eraill yn poeni sut bydd Brexit yn effeithio ar eu staffio. Mae hyn yn peri llawer o bryder ym maes lletygarwch.

"Rydym ni, fel sector, yn ddibynnol iawn ar weithwyr. Ac os cânt ddewis, lle mae'r gorau ohonynt yn mynd i fynd? Ydyn nhw'n mynd i aros yn y DU?"

Pryderon ynghylch hyrwyddo Cymru

2.8 Mae cwpwl o arweinwyr y diwydiant yn poeni nad yw Cymru'n cael ei hysbysebu ddigon fel cyrchfan twristiaeth yng ngweddill y DU neu dramor. Dywedir y gallai hyn effeithio ar fusnes ar ôl Brexit os bydd yn parhau.

"Mae gennych farchnata ffyrnig ar droed mewn rhai o ranbarthau Lloegr, ond a allwn barhau i gadw ein proffil yng Nghymru?"

"Y broblem fwyaf yma, hyd y gwelaf i, yw nad yw'r awdurdodau lleol yn gwneud unrhyw beth i helpu'r diwydiant ymwelwyr."

Agweddau cadarnhaol wrth symud ymlaen

2.9 Mae'r hyder ymhlith gweithredwyr am weddill y flwyddyn yn eithaf cadarnhaol ar y cyfan. Cred llawer y byddant wedi adennill eu colledion erbyn diwedd y flwyddyn.

"Rwy'n hyderus iawn am weddill y flwyddyn. Mae misoedd Medi/Hydref yn tueddu i fod yn amser da o'r flwyddyn i'r darparwyr. Mae dal digonedd i'w gael a digonedd i'w wneud."

"Mae'r mwyafrif o bobl yn ffyddiog y byddwn yn adennill ein colledion yn araf – rydym wedi bod yn edrych ar y ffigurau."

3. CEFNIDIR A METHODOLEG

Beth yw Baromedr Busnes Twristiaeth Cymru?

- 3.1 Cynlluniwyd Baromedr Busnes Twristiaeth Cymru i roi adborth cyflym ynglŷn â'r ffordd y mae'r diwydiant twristiaeth yng Nghymru yn perfformio ar adegau allweddol yn ystod y flwyddyn. Mae'r Arolwg wedi'i gynnal ar ffurfiau amrywiol ers 2005, ac fel arfer cynhelir rhwng dau a phum 'cam' ymchwil bob blwyddyn.
- 3.2 Mae'r cam ymchwil hwn yn ymwneud â tymor yr haf yn 2018, gyda mesuriadau hefyd o ddisgwyliadau ar gyfer yr hydref.

Sut y cynhelir yr Arolwg?

- 3.3 Rydym wedi cynnal 819 o gyfweiliadau dros y ffôn. Mae hwn yn golygu bod canlyniadau'r cwestiynau a ofynnwyd i bawb yn gywir i $\pm 3.4\%$. Mae'r sampl yn adlewyrchu'r diwydiant twristiaeth yng Nghymru, ac fe'i dangosir isod yn ôl sector a rhanbarth:

Sector / Rhanbarth	Gogledd	Canolbarth	De-orllewin	De-ddwyrain	Cyfanswm
Llety â gwasanaeth	99	43	78	66	286
Llety hunanarlwyo	86	45	64	40	235
Meysydd carafanau/pebyll	43	26	21	4	94
Hostelau	15	7	12	8	42
Atyniadau	28	14	19	19	80
Gweithredwyr gweithgareddau	10	12	8	12	42
Bwytaï / tafarndai / caffis	15	7	13	5	40
Cyfanswm	296	154	215	154	819

- 3.4 Mae ychydig o dan thri chwarter (71%) o'r busnesau yn y sampl yn cael eu graddio gan Croeso Cymru ar hyn o bryd, ac mae 29% heb eu graddio. Mae'r samplau sydd wedi eu graddio a'r samplau nad ydynt wedi eu graddio wedi eu gwasgaru ar draws y gwahanol ranbarthau a sectorau ar wahân i fwytaï / tafarndai / caffis a gweithredwyr gweithgareddau, lle nad yw graddio'n berthnasol. Mae gweithredwyr bwytaï, tafarndai a chaffis wedi eu dewis mewn ardaloedd lle mae nifer uchel o dwristiaid ar draws gwahanol rannau o Gymru a


gofynnwyd iddynt ateb cwestiynau yng nghyd-destun eu cwsmeriaid sy'n dwristiaid (h.y. nid cwsmeriaid lleol).

- 3.5 Cynhaliwyd pob cyfweiliad dros y ffôn gyda pherchnogion neu reolwyr busnes ym mis Awst. Ceir copi o'r holiadur fel atodiad.

Cam	Enw'r cam	Cyfnod amser
Cam 1, 2016	Y Pasg	26 Mawrth i 10 Ebrill
Cam 2, 2016	Hanner tymor mis Mai	28 Mai i 5 Mehefin
Cam 3, 2016	Haf	Mehefin i Awst
Cam 4, 2016	Hydref	Medi i ddechrau Tachwedd
Cam 1, 2017	Y Pasg	8 Ebrill i 23 Ebrill
Cam 2, 2017	Hanner tymor mis Mai/Mehefin	27 Mai i 4 Mehefin
Cam 3, 2017	Haf	Mehefin i Awst
Cam 4, 2017	Hydref	Medi i ddechrau mis Tachwedd
Cam 1, 2018	Y Pasg	30 Mawrth i 15 Ebrill
Cam 2, 2018	Hanner tymor mis Mai/Mehefin	26 Mai i Mehefin 3
Cam 3, 2018	Haf	Mehefin i Awst

4. PERFFORMIAD YR HAF

PERFFORMIAD FESUL SECTOR



Heulwen yn dod â buddion i'r diwydiant twristiaeth

- 4.1 Mae'r tywydd braf dros yr haf, yn enwedig ym mis Mehefin a Gorffennaf, wedi cael effaith gadarnhaol iawn ar nifer yr ymwelwyr.
- 4.2 Mae'r sector hostel wedi perfformio'n dda iawn. Mae safleoedd carafannau a gweryslla – un o'r sectorau sy'n dibynnu fwyaf ar y tywydd – hefyd wedi mwynhau haf hynod o dda.

"Mae popeth yn dibynnu ar y tywydd"
Parc carafannau, Canolbarth


"Archebion grŵp mawr"
Hostel, De-orllewin

Mae pob sector ar ei ennill yn gyffredinol

- 4.3 Er bod y sectorau hostel a charafannau a gweryslla sydd wedi bod y mwyaf llwyddiannus yr haf hwn, mae pob sector wedi cael tymor bywiog. Mae hyn yn newyddion calonogol gan ystyried y dechrau anodd i 2018 gyda'r eira ym mis Mawrth a mis Ebrill.

"Roedd y gwerthiannau ar gyfer rhan gyntaf yr haf i fyny £85,000"
Llety â gwasanaeth, Gogledd


TUEDD O RAN PERFFORMIAD



Twf cyson bob haf

- 4.4 Mae canlyniadau cadarnhaol busnesau o ran y cynnydd yn nifer yr ymwelwyr wedi'u cymharu â haf da yn 2017 – ac roedd hwn, yn ei dro, yn well na haf 2016.
- 4.5 Mae gweithredwyr yn croesawu'r tymor cadarnhaol hwn yn fawr iawn ar ôl dechrau mor heriol i 2018.

PERFFORMIAD FESUL RHANBARTH




Canlyniadau da i bob rhanbarth yng Nghymru

- 4.6 Mae pedwar rhanbarth Cymru wedi cael budd o dymor prysurach yr haf, gyda phob rhanbarth yn nodi mai'r tywydd oedd y prif reswm am hyn.
- 4.7 Mae busnesau yn y de-ddwyrain wedi'u hybu gan ddigwyddiadau. Mae 22% o'r rhai hynny a welodd gyfnod prysurach yn nodi hwn fel rheswm.

"Rydym yn brysurach oherwydd gwyliau yn yr ardal"
Llety â gwasanaeth, De-ddwyrain

"Llawer o ddigwyddiadau'n cael eu cynnal"
Bwyty, De-ddwyrain

5. RHESYMAU DROS GYNNYDD MEWN YMWELWYR



Wythnosau di-dor o heulwen

- 5.1 Fel y trafodwyd, dechreuodd y tymor yn gadarnhaol iawn gyda chyfnod hir o dywydd cynnes a heulog drwy gydol mis Mehefin a Gorffennaf.

"Cawsom ddechrau prysur i'r haf, a bydd yn debygol o barhau am yr hydref"
Llety â gwasanaeth, De-ddwyrain

"Y tywydd sy'n gyfrifol am hyn"
Llety â gwasanaeth, Gogledd


Hunanfarchnata'n cyflwyno canlyniadau

- 5.2 Er bod y diwydiant wedi elwa ar dywydd braf yr haf hwn, ni all y DU yn gyffredinol ddibynnu ar hyn bob blwyddyn. Mae rhai busnesau wedi bod yn marchnata'r hyn sydd ganddynt i'w cynnig mewn modd rhagweithiol.

"Mae gennym fwy o ymwelwyr trwy hysbysebu mwy mewn papurau newydd lleol, cael mwy o bresenoldeb ar gyfryngau cymdeithasol, e.e. Twitter"
Atyniad, Canolbarth

"Mae gennym farchnata gwell ar gyfryngau cymdeithasol nawr, ac mae hyn wedi cynyddu nifer ein gwesteion"
Llety â gwasanaeth, De-orllewin

6. RHESYMAU DROS LAI O YMWELWYR



Gwahanol ddiffiniadau o dywydd 'da'

6.1 Os yw eich atyniad dan do, nid yw tywydd 'da' i bawb arall o reidrwydd yn dda i'ch busnes chi. Mae 63% o'r atyniadau sydd wedi cael llai o ymwelwyr yn nodi'r tywydd fel rheswm.

"Mae popeth yn dibynnu ar y tywydd i ni. Po waethed yw'r tywydd, mwya'n byd o ymwelwyr rydym ni'n eu cael."
Atyniad, De-ddwyrain

Poblogrwydd Airbnb


6.2 Mae cystadleuaeth gyda phrisiau rhad yn heriol, ac mae gweithredwyr llai o faint – yn enwedig yn y sector hunanddarpar – yn siarad am boblogrwydd Airbnb. Mae eu hymateb i'r gystadleuaeth yn amrywio. Mae rhai gweithredwyr yn derbyn na allant gystadlu ag ef, ond mae eraill yn mabwysiadu'r agwedd 'oni ellir curo, rhaid ymuno'.

"Mae Airbnb wedi effeithio arnom ac wedi arafu archebion ar gyfer y dyfodol, felly roedd yn rhaid i ni fynd ar Airbnb i gael yr archebion hynny"
Llety hunanddarpar, Canolbarth

"Mae cynnydd mewn darparwyr Airbnb wedi arwain at lai o fusnes"
Llety hunanddarpar, De-ddwyrain

"Cefais fwy o fy archebion fy hun o Airbnb eleni"
Llety hunanddarpar, Canolbarth

7. PERFFORMIAD YN ÔL Y FARCHNAD



Marchnad y DU yn perfformio'n dda

7.1 Mae marchnad y DU (y tu allan i Gymru) yn perfformio'n well na'r flwyddyn ddiwethaf. Gan ystyried ei bwysigrwydd i ddiwydiant twristiaeth Cymru, mae hyn yn galonogol iawn. Ymddengys fod y canolbarth yn elwa'n arbennig ar farchnad y DU, gyda 43% o weithredwyr yn nodi bod busnes yn well. Gwneir rhai sylwadau ynghylch ymwelwyr y DU yn aros ym Mhrydain yn lle mynd dramor, o bosibl yn cael eu dylanwadu gan y tywydd a'r cyfraddau cyfnewid.

"Mae pobl yn aros yn y DU ar eu gwyliau yn ôl pob tebyg"
Llety hunanddarpar, Canolbarth

"Nid oes llawer o bobl yn mynd dramor"
Llety â gwasanaeth, Gogledd

"Tywydd braf, cyfradd cyfnewid ar ein hochr"
Maes gwerysyla, Canolbarth

Y bunt wan yw un o'r rhesymau pam fod marchnadoedd Ewrop yn perfformio'n dda

7.2 Mae'r Almaen a marchnadoedd eraill yn Ewrop hefyd yn gwneud yn well na'r llynedd. Dywed rhai gweithredwyr fod y bunt wan yn cyfrannu at hyn.

- 7.3 Mae'r duedd i'w gweld mwy yn y de a'r canolbarth, lle mae 41% o fusnesau wedi gweld mwy o ymwelwyr o'r Almaen a 46% ohonynt wedi gweld mwy o ymwelwyr o wledydd eraill yn Ewrop.

"Rydym wedi cael llawer mwy o Ewropeaid – rwy'n credu mai'r gyfradd gyfnewid sy'n gyfrifol am hyn"

Llety â gwasanaeth, De-orllewin

"Llawer mwy o ymwelwyr Ewropeaidd eleni, yn enwedig pobl o'r Iseldiroedd a'r Almaen"

Llety hunanddarpar, Canolbarth

Tsieina ac Awstralia

- 7.4 Mae 'gweddill y byd' yn gwneud yn well yn gyffredinol na'r llynedd. Yn benodol, mae nifer o sylwadau wedi'u gwneud ar y cynnydd mewn ymwelwyr o Tsieina ac Awstralia.

"Rydym wedi cael llawer mwy o dwristiaid o Tsieina eleni"

Llety â gwasanaeth, Gogledd


"Mae gennym fwy yr adeg hon o'r flwyddyn, sy'n gysylltiedig â myfyrwyr rhyngwladol o Tsieina sy'n astudio ym Mhrifysgol Caerdydd. Maen nhw'n dod â'u teuluoedd am deithiau o amgylch Caerdydd"

Atyniad, De-ddwyrain

"Rydym wedi cael llawer mwy o Awstraliaid eleni"

Llety â gwasanaeth, Gogledd

8. PROFFIDIOLDEB



Mae'r proffidioldeb yn edrych yn dda bellach, ar ôl dechrau gwael i'r flwyddyn

8.1 Mae'r rhan fwyaf o fusnesau (80%) yn llwyddo i naill ai gynyddu neu gynnal eu lefel o broffidioldeb hyd yma yn ystod 2018. Mae hyn yn galonogol i'w weld ar ôl dechrau gwael i'r flwyddyn.


"Gwelwyd 120% yn fwy o elwau eleni o'u cymharu ag y llynedd"
Llety â gwasanaeth, Gogledd

"Fe wnaeth yr eira effeithio ar yr elw am eleni"
Llety â gwasanaeth, Gogledd

8.2 Nid yw mwy o ymwelwyr bob amser yn golygu mwy o broffidioldeb, ac mae rhai gweithredwyr wedi nodi her barhaus costau gweithredu sydd ar gynydd.

"Mae gorbenion bob amser yn cynyddu – mae wedi effeithio ar yr elw am eleni"
Llety â gwasanaeth, Gogledd


TUEDDIADAU O RAN PROFFIDIOLDEB



Darlun mwy iachus

8.3 Fel y crybwyllwyd uchod, mae'r proffidioldeb yn y diwydiant yn edrych yn llawer mwy addawol na'n gynharach y flwyddyn hon.

9. EFFAITH BREXIT



Nid yw Brexit yn effeithio rhyw lawer ar nifer yr ymwelwyr ar hyn o bryd

- 9.1 Wrth i ni ddod at gam olaf y trafodaethau Brexit, ychydig iawn o effaith y mae wedi'i chael ar y diwydiant twristiaeth hyd yma o ran nifer yr ymwelwyr, gyda thri chwarter (75%) o weithredwyr yn dweud nad ydynt wedi gweld unrhyw effaith, ac 11% yn ansicr o unrhyw effaith.
- 9.2 Pan fydd gweithredwyr yn gweld effaith ar nifer yr ymwelwyr, boed honno'n effaith gadarnhaol neu negyddol, mae'r cydrannau'n ddigon tebyg. Yn gyffredinol, mae 6% yn nodi effaith gadarnhaol ac mae 8% wedi gweld effaith negyddol ar nifer yr ymwelwyr.

Effaith leiaf ar staffio

- 9.3 Ymhlith y busnesau sy'n cyflogi staff heblaw am y perchnogion, adrodda cyfran uchel iawn ohonynt (89%) nad yw Brexit wedi cael unrhyw effaith ar eu lefelau staffio hyd yma.
- 9.4 O ran y rhai prin hynny sydd wedi cael eu heffeithio, mae'r problemau'n ymwneud â recriwtio aelodau newydd o staff a chadw personél nad ydynt yn Brydeinwyr.

"Mae'n dod yn fwyfwy anodd i recriwtio o dramor, ac rydym wedi colli staff cyfredol am nad oes ganddynt hyder."

Llety â gwasanaeth, Gogledd

"Mae'n anoddach i recriwtio gan fod llai o staff UE ar gael."

Tafarn, De-orllewin

"Mae Brexit wedi peri i Ewropeaid gollu cymhelliant."

Llety â gwasanaeth, Canolbarth

"Rydym wedi bod yn gyndyn i gyflogi staff amser llawn oherwydd yr ansicrwydd o ran Brexit."

Atyniad, De-orllewin

Mae ansicrwydd yn parhau

- 9.5 Mae llawer o ansicrwydd o hyd ynghylch effaith Brexit ar y diwydiant twristiaeth, ac nid yw gweithredwyr yn siŵr sut bydd yn effeithio ar eu busnesau.

"Mae popeth mor amwys, felly rwy'n ansicr yn ei gylch."

Llety â gwasanaeth, Canolbarth

"Wn i ddim pa effaith bydd yn ei chael, oherwydd ni ŵyr neb beth fydd yn digwydd."

Atyniad, De-ddwyrain

"Gallai fod yn dda, gallai fod yn wael. Pwy a ŵyr."

Hostel, Canolbarth

"D'oes gen i ddim syniad, mae popeth mor ansicr."

Llety hunanddarpar, Gogledd

- 9.6 Yn y cyfamser, cred rhai busnesau y gallai'r ansicrwydd ynghylch Brexit yn ei hunan gael effaith negyddol ar fusnesau.

"Byddai'n drychineb oherwydd ei ansicrwydd."

Llety â gwasanaeth, Gogledd

"Mae'r ansicrwydd yn niweidio'r busnes yn gyffredinol – byddem yn hoffi cael penderfyniadau clir gan y llywodraeth."

Safle carafannau, De-orllewin

"Yn bersonol, rwy'n credu mai'r anallu i wybod beth fydd Brexit yn ei wneud sy'n achosi'r broblem."

Llety hunanddarpar, De-ddwyrain

Cyfle gwych i'r farchnad gartref...

- 9.7 Mae rhai busnesau'n rhagweld cynnydd yn y farchnad gartref pan fydd Prydain yn gadael yr UE. Dywedir hyn gan fod gweithredwyr yn credu y bydd Prydeinwyr sy'n mynd ar wyliau yn llai tebygol o fynd dramor ar eu gwyliau.

"Bydd yn dda i'r busnes, oherwydd bydd llai o Brydeinwyr yn teithio dramor."

Llety â gwasanaeth, Gogledd

"Disgwylir mwy o archebion gan Brydeinwyr ar ôl Brexit – aros yma yn lle mynd dramor."
Llety hunanddarpar, De-orllewin

"Rwy'n credu y bydd yn cynyddu ein rhifau, os rywbeth, oherwydd bydd mwy o bobl yn methu mynd dramor. Bydd mwy o bobl yn cymryd gwyliau gartref."
Llety â gwasanaeth, Gogledd

"Bydd Brexit yn dda i'r diwydiant twristiaeth, oherwydd bydd pobl Prydain yn aros yn y DU yn lle mynd dramor."
Llety hunanddarpar, Canolbarth

...ond teimladau cymysg ynghylch y farchnad dramor

9.8 Awgryma'r gweithredwyr sy'n optimistaidd am nifer yr ymwelwyr o dramor y gallai gwerth y bunt fod yn ffactor arwyddocaol mewn cynyddu nifer yr ymwelwyr o dramor. Disgwylir i'r bunt wannach wneud y wlad yn gyrchfan gwyliau rhatach i dwristiaid.

"Rwyf newydd dderbyn fy archeb gyntaf ers blynyddoedd o'r Iseldiroedd. Mae'n bosibl y bydd y bunt wannach yn ysgogi pobl i ddod draw."
Llety hunanddarpar, Gogledd

"Byddwn ni'n cael mwy o dwristiaid tramor oherwydd gwerth isel y bunt."
Llety â gwasanaeth, Gogledd

"Bydd hi'n rhatach i ymwelwyr o dramor ddod i Brydain."
Gweithredwr gweithgareddau, De-orllewin

"Mae'n rhatach i Ewropeaid yn ôl pob golwg oherwydd y gyfradd gyfnewid."
Llety hunanddarpar, Canolbarth

9.9 Mae busnesau eraill yn disgwyl llai o ymwelwyr tramor pan fydd y trafodaethau Brexit wedi dod i ben, yn enwedig o'r Undeb Ewropeaidd. Bydd hyn yn arwain at lai o fusnes i rai.

"Mae rhai o'n hymwelwyr o'r Almaen eisiau dychwelyd blwyddyn nesaf, ond ni fyddant yn gwneud hyn, oherwydd nid ydynt am wynebu'r hyn y bydd yr adran dollau yn ei wneud."
Llety hunanddarpar, Canolbarth

"Bydd hi'n anoddach i rywun ddod i'r DU."
Bwyty, De-ddwyrain

"Byddai'n cael effaith eithaf gwael, oherwydd rydym ni'n cael grwpiau anferth o bobl yn aros gyda ni o'r UE."
Llety â gwasanaeth, De-orllewin

"Os bydd Airbus yn tynnu'n ôl, bydd hi'n drech arnom."
Atyniad, Gogledd

Costau'n peri gofid i rai

- 9.10 Er bod rhai yn credu y bydd punt wannach yn denu ymwelwyr tramor, mae rhai gweithredwyr llety â gwasanaeth yn benodol yn poeni sut bydd yn effeithio ar y gost o ddarparu gwasanaethau i westeion.

"Bydd ein costau'n cynyddu – bydd darparu'r un gwasanaeth yn fwy costus i ni."

Llety â gwasanaeth, De-ddwyrain

"Os bydd costau'n cynyddu, ni fydd gennym unrhyw ddewis ond codi ein prisiau, felly bydd yn effeithio'n uniongyrchol ar y busnes."

Llety â gwasanaeth, Gogledd

Cadwch eich pen a dal ati

- 9.11 Dywed dros un rhan o dair (36%) o weithredwyr na fydd canlyniad 'dim borgen' i Brexit yn effeithio ar eu busnes gan fod ganddynt nifer fawr o ymwelwyr cartref eisoes.

"Pobl o'r DU sy'n ymweld â'r wersyllfa fwyaf, felly nid wyf yn credu y bydd yn effeithio arnom ni."

Safle carafannau a gwersyllfa, Gogledd

"Rydym ni'n ymdrin â llawer o ysgolion, felly ni fyddai'n gymwys."

Gweithredwr gweithgareddau, De-orllewin

"Mae 99% o'n hymwelwyr yn byw yn y DU, felly rwy'n amau y byddai'n effeithio arnom."

Llety hunanddarpar, Gogledd

- 9.12 Mae busnesau'n parhau i fod yn optimistaidd ar gyfer dyddiad cau'r trafodaethau ym mis Mawrth 2019, oherwydd nid ydynt yn credu y bydd y canlyniad gwleidyddol yn llesteirio awydd twristiaid i deithio. Beth bynnag a ddigwydd, mae gweithredwyr yn disgwyl parhau yn ôl eu harfer.

"Mae gwersyllwyr go iawn bob amser yn teithio."

Safle carafannau a gwersyllfa, Gogledd

"Bydd twristiaid bob amser yn dod draw i ymweld â'r natur brydferth."

Llety hunanddarpar, De-orllewin

"Os yw pobl eisiau mynd i'r amgueddfa, byddant yn parhau i ddod, beth bynnag a ddaw."

Atyniad, Gogledd

"Bydd pobl sydd eisiau dod i Gymru yn dod i Gymru, felly nid wyf yn credu y bydd 'dim borgen' i Brexit yn effeithio arnom ni."

Llety â gwasanaeth, De-orllewin

"Mae busnes yn parhau."


Llety hunanddarpar, De-orllewin

"Borgen neu beidio, byddwn yn wynebu beth bynnag a ddaw."

Hostel, Gogledd

10. DISGWYLIADAU A HYDER AR GYFER YR HYDREF

HYDER FESUL SECTOR



Gobeithion mawr ar gyfer yr hydref

10.1 Mae'r hydref yn dueddol o fod yn dymor tawelach i'r mwyafrif o weithredwyr gan fod y tywydd yn oeri, ond mae'r mwyafrif helaeth (79%) yn parhau i fod yn optimistaidd.

"Mae gennym archebion ar gyfer yr hydref yn barod – mae'n mynd i fod yn dymor da yn ôl pob golwg."

Safle carafannau a gweryllfa, Gogledd

"Bydd yr ŵyl Elvis ym Mhorthcawl yn dod â llawer o fusnes i ni yn yr hydref."

Llety â gwasanaeth, De-ddwyrain

10.2 Mae rhai sectorau'n dibynnu'n fawr ar y tywydd dros gyfnod yr hydref, ac mae llawer o weithredwyr yn gobeithio am fwy o dywydd da. Mae rhai busnesau yn y de-ddwyrain yn edrych ymlaen at y gemau rygbi rhyngwladol yn yr hydref.


"Bydd y gemau rhyngwladol yn yr hydref yn helpu i ddenu cwsmeriaid."

Bwyty, De-ddwyrain

"Maen nhw'n heidio yma pan fo'r tywydd yn braf."

Caffi, De-orllewin

TUEDD O RAN HYDER



Mae'r hyder yn nodweddiadol am yr amser hwn o'r flwyddyn

10.3 Mae hyder yn dymhorol yn y diwydiant twristiaeth. Pan ddaw'r haf i ben, nid yw gweithredwyr fel arfer mor hyderus am y tymor i ddod. Serch hyn, mae'r hyder ar gyfer hydref 2018 ar lefel debyg i'r hyder a welwyd ar gyfer yr hydref mewn blynyddoedd eraill.

"Mae'r hydref bob amser yn eithaf gwael, ond rydym yn disgwyl hynny."
Llety â gwasanaeth, De-ddwyrain

"Mae bob amser yn dawelach yn nhymor yr hydref – mae hynny'n normal."
Safle carafannau a gwerysllfa, Gogledd

"Mae'r archebion yn llifo i mewn."
Parc carafannau, De-orllewin

Baromedr Busnes Twristiaeth Cymru

Holiadur mis Mehefin

Sector Pa un o'r canlynol sy'n disgrifio eich math o fusnes orau?

- Llety â gwasanaeth
- Llety hunan arlwyo
- Maes carafannau / pebyll
- Hostel
- Atyniad.....
- Cynnal gweithgaredd.....
- Bwyty / tafarn / caffï

Q1 A yw eich busnes wedi'i sefydlu am fwy na 12 mis?

- Do..... Go to Q2
- Naddo..... Go to Q7

Q2 O gymharu â'r haf y llynedd, faint o ymwelwyr yr ydych wedi'u cael yr haf hwn?

- Yn fwy na'r llynedd
- Tua'r un peth ag y llynedd
- Yn llai na'r llynedd
- Ddim yn gwybod.....

Q3 Pam fyddech chi'n dweud eich bod wedi cael mwy o ymwelwyr? (*Paid a annog, ticiwch bob un perthnasol*)

- Tywydd gwell
- Marchnata eich hun.....
- Busnes dychwel
- Adferiad economaidd
- Mwy o archebion trwy asiant ar-lein (e.e. booking.com).....
- Wedi arwyddo fyny i asiantaeth newydd (hunan arlwyo).....
- Argymhellion.....
- Cynnydd mewn twristiaeth
- Mwy o le / ystafelloedd
- Digwyddiadau yn yr ardal.....
- Ystafelloedd neu gyfleusterau gwell.....
- Mwy o bobl Prydain yn aros yn y DU
- Mwy o ymwelwyr tramor.....
- Ddim yn gwybod.....
- Arall
- Nodwch reswm / resymau eraill

Q4 Pam fyddech chi'n dweud eich bod wedi cael llai o ymwelwyr? (*Paid a annog, ticiwch bob un perthnasol*)

- Tywydd
- Ddim wedi hyrwyddo'r busnes / busnes dirwyn i lawr
- Problemau annisgwyl
- Hinsawdd economaidd
- Cystadleuaeth gref
- Twristiaeth wedi gostwng yn yr ardal
- Llai o ymwelwyr tramor
- Llai o bobl Prydain yn mynd ar wyliau yn y DU
- Ddim yn gwybod
- Arall
- Nodwch reswm / resymau eraill

Q5 O edrych ar darddiad eich ymwelwyr, sut mae lefel y busnes hyd yn hyn eleni o bob un o'r marchnadoedd canlynol o'i gymharu â'r un cyfnod y llynedd?

CYFWELYDD: OS YDYNT BYTH YN DERBYN YMWELWYR O UN O'R MARCHNADOEDD ISOD, TICIWCH 'DDIM YN GYMWYS'

	I fyny ar y llynedd	Tua'r un peth a llynedd	I lawr ar y llynedd	Ddim yn gwybod neu ddim yn gymwys
Cymru	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
O fewn y DU ond tu allan Cymru	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Gweriniaeth Iwerddon	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Yr Almaen	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Gwledydd eraill yn Ewrop	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Gogledd America	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Gweddill y byd	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>

Q6 Hyd yn hyn eleni, sut mae eich proffidoldeb ar y cyfan o'i gymharu â'r un cyfnod y llynedd?

- I fyny ar y llynedd
- Tua'r un peth a llynedd
- I lawr ar y llynedd
- Ddim yn gwybod / well gen i ddim dweud

Q7 Pa mor hyderus ydych chi am dymor yr hydref?

- Hyderus iawn
- Eithaf hyderus
- Ddim yn hyderus iawn
- Ddim yn hyderus o gwbl
- Ddim yn gwybod

Q8 *Cyfwelydd: cofnodi'r holl sylwadau defnyddiol ar berfformiad yr haf hwn, marchnadoedd neu eich hyder ar gyfer yr hydref*

- Q9 Hyd yn hyn, faint, os o gwbl, y mae Brexit wedi effeithio ar eich nifer o ymwelwyr?
- Mae wedi bod yn gadarnhaol iawn.....
- Mae wedi bod yn eithaf gadarnhaol
- Nid yw wedi cael effaith.....
- Mae wedi bod yn eithaf negyddol.....
- Mae wedi bod yn negyddol iawn
- Dim yn gwybod

- Q10 A yw eich busnes yn cyflogi unrhyw un heblaw'r perchnogion?
- Ydy
- Nac ydy.....

- Q11 Sut, os o gwbl, y mae Brexit wedi effeithio ar staffio yn eich busnes?
- Effaith gadarnhaol
- Dim effaith
- Effaith negyddol - anawsterau wrth recriwtio gweithwyr newydd.....
- Effaith negyddol - anawsterau wrth gadw gweithwyr presennol
- Effaith negyddol - rheswm arall.....
- Ddim yn siwr

Q12 OS UNRHYW EFFAITH YN Q11

Rhowch sylwadau ar yr effaith ar staffio

Q13 PAWB

Pa effaith, os o gwbl, ydych chi'n meddwl y bydd 'no deal' i Brexit yn ei gael ar eich busnes?

- Q14 A yw eich busnes wedi'u graddio neu wedi'u hachredu gan Croeso Cymru / Visit Wales?
- Do
- Naddo

Diolch i chi am eich amser

- Region Region of Wales
- North.....
- Mid.....
- South West.....
- South East.....

Company Company

ID

ID - Please do not get this wrong! Check and check again before you submit!

Interviewer: please record your name

r